The IDEAL Programme Newsletter No. 7 June 2019

# BYW'N DDA A CHADW'N HEINI:

# RHAGLEN IDEAL

## Yn Rhifyn y Gwanwyn...

**Beth ydy'r sefyllfa hyd yn hyn o ran y rhaglen IDEAL? (t1)**

**Prosiectau ychwanegol IDEAL- Y diweddaraf ar ymchwil cyd-gynhyrchu (t2)**

**Detholiad o gyhoeddiadau diweddar (t2)**


**Gweithio ar IDEAL– Myfyrdodau gan y tîm o Kent (t3)**


**Digwyddiadau'r rhaglen IDEAL – Beth fuom ni'n ei wneud? (t4)**

## Cynnydd Rhaglen IDEAL

Bu nifer ohonoch chi'n rhan o IDEAL (cyfnod 1 i 3). Fodd bynnag, rydym hefyd yn croesawu unigolion newydd i ymuno gyda ni ar gyfer IDEAL-2 (yn ystod Cyfnod 4). Rydym yn recriwtio pobl newydd yn ystod Cyfnod 4 er mwyn gofalu caiff pobl o wahanol oedran a gyda gwahanol ddiagnosis eu cynrychioli'n ddigonol yn yr astudiaeth.

Mae 28 safle'r GIG ledled Prydain yn ymweld ag unigolion ar hyn o bryd ar gyfer Cyfnod 4.



# Prosiectau Ychwanegol y Rhaglen IDEAL

| **Prosiect 2 Cyd-gynhyrchu** | Prosiect 3 Dementia datblygedig | Prosiect 4a Cymunedau Croenddu, Asiaidd ac Ethnig Lleiafrifol | Prosiect 4b Dementia heb ddiagnosis | Prosiect 5 Defnydd gwasanaeth a chost | Prosiect 6 Polisïau ac Ymarferion |
|---|---|---|---|---|---|

## Grŵp DEAR (Arbenigwyr Dementia ynghylch Ymchwil Weithredu )

Rydym yn grŵp o 11 o bobl gyda dementia yn cydweithio gyda Phrifysgol Exeter er mwyn creu ffordd o fesur beth mae'n ei olygu i 'fyw'n dda gyda dementia'.

### Holiadur Personol

Mae ein holiadur yn fodd ichi Ddewis eich datganiadau'ch hun ynghylch union ystyr byw'n dda *ichi.* Byddwn yn rhoi hyn ar brawf am yr ychydig fisoedd nesaf i weld pa mor effeithiol ydy'r broses.

DEAR
Dementia Experts into Action Research

## Datblygu Holiadur Cyffredinol

Yn ystod Hydref 2019, byddwn yn mynd ati i lunio holiadur cyffredinol lle bydd pawb yn derbyn yr un cwestiynau yn yr un ffordd.

### Profiad Joy

*"Bu **DEAR** yn help imi ganolbwyntio ac yn reswm imi godi o fy ngwely. Rydw i'n edrych ymlaen at fod yn rhan o'r ymchwil. Fe **alla** i gyfrannu, ni chaiff dementia reoli fy mywyd mwyach."*

## Cyhoeddiadau Diweddar

Mae holl gyhoeddiadau IDEAL a chrynodebau Saesneg eglur ar gael yma www.idealproject.org.uk/activities/papers/

Bu i dîm rhaglen IDEAL gyhoeddi dau bapur trosfwaol yn y dyddlyfr *Alzheimer Disease and Associated Disorders*. Bu'r cyhoeddiadau o dan arweiniad Prif Ymchwiliwr IDEAL, yr Athro Linda Clare. Mae un papur yn bwrw golwg ar yr hyn sy'n cyfrannu at allu pobl gyda dementia i fyw'n dda. Mae'r ail yn ymwneud â pha ffactorau sy'n bwysig i'r rheiny sy'n gofalu amdanyn nhw (ffrindiau / teulu) i fyw'n dda. Cafodd iechyd meddwl a chorfforol eu hamlygu fel ffactor pwysig ar gyfer y ddau grŵp. Yn ogystal, cafodd teimlad o werth yn y gymuned a rheoli tasgau ar gyfer pobl gyda dementia ynghyd â phrofiadau cadarnhaol o

Bu i'r ymchwilydd Ruth Lamont a'i chydweithwyr gyhoeddi canfyddiadau yn sgil IDEAL yn y dyddlyfr *Aging & Mental Health*. Mae'r papur yn amlygu pwysigrwydd o deimlo'n werthfawr, yn ddefnyddiol ac yn optimistaidd er mwyn medru mynd ati i fyw'n well gyda

Bu i'r ymchwilydd Catherine Quinn arwain ar erthygl yn ymwneud â chredoau cynigwyr gofal ynghylch dementia wedi'i gyhoeddi yn y dyddlyfr *Psychology & Health*. Bu i'r tîm ymchwil ganfod fod y ffordd y bu gofalwyr yn ystyried a thrafod dementia yn gysylltiedig â'u lles personol.

# Gweithio ar IDEAL—Myfyrdodau Tîm Kent



Llwyddodd tîm ymchwil Ymddiriedolaeth Partneriaeth GIG a Gofal Cymdeithasol Kent Medway i fod yn **ardal recriwtio mwyaf blaenllaw** ar gyfer yr astudiaeth IDEAL. Yn dilyn hynny, rydym ar ben ein digon o dderbyn gwahoddiad i ddychwelyd fel ardal recriwtio ar gyfer yr astudiaeth IDEAL-2 ac i fedru cynnig y cyfle ychwanegol hwn i bobl sy'n byw gyda dementia yn Kent.

Mae'n wych gweld yr astudiaeth yn parhau i gasglu data dros gyfnod hirach o amser. Bydd hyn yn fwy defnyddiol byth i fedru cynnig gwybodaeth ar **yr hyn sydd ei angen ar bobl gyda dementia, a'r rheiny sy'n annwyl iddyn nhw, i fyw'n dda.**

Bu inni ganfod fod yr **ymweliadau yn ddymunol a syml** i'r ymchwilwyr a'r unigolion yn sgil llunio holiadur mwy syml. Bu i hyn ofalu fod y profiad yn brafiach i unigolion.



I unigolion sy'n dychwelyd, mae'n bosib bod y cwestiynau'n gyfarwydd gan eu bod yn debyg i gwestiynau IDEAL. Fodd bynnag, bu i adborth ar lafar hyd yn hyn gan unigolion yn byw gyda dementia a'u partneriaid astudiaeth ddatgan y bu'n ddefnyddiol iddyn nhw dderbyn yr un cwestiynau eto, gan ei fod yn eu hannog i **werthuso sut bu i'w sefyllfa newid o bosib** ers inni eu gweld dwy flynedd yn ôl a pha fath o gefnogaeth fyddai'n fuddiol iddyn nhw ar hyn o bryd.

I unigolion newydd yn ymuno gydag IDEAL-2 sydd heb gymryd rhan yn IDEAL, **bu'r rhaglen yn llwyddiannus a phoblogaidd** ac mae'r broses o ymuno â'r rhaglen heb ichi fod yn rhan ohoni yn flaenorol yn rhwydd.

**Rydym yn edrych ymlaen at barhau i weld unigolion hen a newydd** ar gyfer IDEAL-2, ac i gydweithio gyda'r tîm ym Mhrifysgol Exeter i gynnig y rhaglen bwysig hon i'r rheiny sy'n manteisio ar ein gwasanaeth ledled Kent.

**Jamie Harper—** Cydlynydd Ymchwil Clinigol Cynorthwyol

# Digwyddiadau Rhaglen IDEAL

**Dathlu cwblhau IDEAL**

Ym mis Tachwedd 2018 bu inni gyfarfod yn Llundain er mwyn dathlu diwedd hanner cyntaf y rhaglen IDEAL (Cyfnod 1-3) ac i gyflwyno'r ail hanner (Cyfnod 4-6). Fel rhan o'r digwyddiad bu cyflwyniadau gan y grŵp ymgynghorol y prosiect a'r grŵp ALWAYs (Action on Living Well: Asking You), a gan yr AS Debbie Abrahams. Cafodd y canfyddiadau diweddaraf eu cyflwyno i'r rheiny sy'n ymwneud â gofal a pholisïau ar gyfer pobl gyda.




**Rhwydwaith Cenedlaethol ar 'fyw'n dda' gyda dementia**



Ym mis Chwefror 2019, bu i ymchwilwyr a chynrychiolwyr o Gymdeithasau Alzheimer cenedlaethol o wledydd fel Brasil, Canada, Yr Almaen, Iwerddon, Siapan, Lebanon, Seland Newydd, Taiwan a'r UDA fynychu gweithdy deuddydd o hyd. Bu i dîm IDEAL rannu'r hyn roedden ni wedi'i ddysgu hyd yn hyn, a bu i'r grwp fwrw golwg ar sut gallwn ni ddysgu mwy am fyw'n dda gyda dementia gan ein cymheiriaid.

**Dadrolio baner 'Egin Gyfeillion'**

Ym mis Ebrill 2019, bu i raglen IDEAL ac AgeUK Exeter ddadorchuddio'r faner ddiweddaraf fel rhan o'n gwaith parhaus i arddangos profiadau pobl o fyw gyda dementia drwy gyfrwng celf. Cafodd y faner ei chreu ar y cyd â phobl gyda dementia ac mae'n dangos effaith cadarnhaol garddio gyda'n gilydd.



Rydym yn anfon y newyddlen hon atoch gan eich bod wedi cymryd rhan yn y rhaglen IDEAL ac wedi rhoi caniatâd inni gysylltu gyda chi.

**I wybod mwy, ewch i: www.idealproject.org.uk**

**Gallwch hefyd ein dilyn ar twitter @IDEALStudyTweet**

**I ddiweddaru eich manylion cyswllt, cysylltwch gyda :**

IDEAL Team, Centre for Research in Ageing and Cognitive Health (REACH), South Cloisters, University of Exeter, St. Luke's Campus, Heavitree Road, Exeter, EX1 2LU.

**Ffôn:** 01392 726865 **Ebost:** IDEAL@exeter.ac.uk